

 **AdvanceHE**



Cynllun Cymrodoriaeth Addysgu Cenedlaethol 2023

Canllawiau ar gyfer
sefydliadau ac unigolion

Cynnwys

1.	Dyddiad cau ac amserlen asesu	3
2.	Cyflwyniad	4
2.1	Newydd ar gyfer 2023	4
3.	Canllawiau ar gyfer enwebu	6
3.1	Cymhwysra	6
3.2	Dogfennau enwebu	7
3.3	Gofynion fformatio	8
3.4	Monitro data cydraddoldeb ac amrywiaeth	9
3.5	Cyflwyno a derbyn enwebiadau	9
4.	Meini prawf CCAC	10
5.	Datblygu'r Cais	10
5.1	Adran A: Datganiad Cyd-destun	11
5.2	Adran B: Cais yn erbyn tri maen prawf CCAC	12
5.3	Adran C: Rhestr Cyfeiriadau	15
6.	Datganiad o Gefnogaeth	16
7.	Y broses adolygu a dewis	17
8.	Digwyddiadau cymorth y Gymdeithas Cymrodorion Addysgu Cenedlaethol	18
9.	Canlyniadau a chyhoeddusrwydd	18
10.	Y seremoni wobrwyo a'r digwyddiad briffio	19
	Atodiad 1: Gofynion enwebu ar gyfer enwebeion a sefydliadau	20
	Atodiad 2: Ffurflen Cais Enwebai CCAC 2023	21
	Atodiad 3: Ffurflen Datganiad o Gefnogaeth	23
	Atodiad 4: Cyfarwyddyd sgorio CCAC 2023	24
	Atodiad 5: Datganiad preifatrwydd CCAC 2023	26

1. Dyddiad cau ac amserlen asesu

Mae'r amserlen ar gyfer cyflwyno ceisiadau a'r broses adolygu fel a ganlyn:

Dyddiad	Carreg Filtir
Dydd Llun 3 Hydref 2022	Galwad am enwebiadau yn agor Caiff holl ffurflenni a chanllawiau CCAC eu rhyddhau ar Amgylchedd Dysgu Rhithwir AU Ymlaen. Gall Arweinwyr Gwobrau Rhagoriaeth mewn Addysgu gofrestru i gael mynediad i'r Amgylchedd Dysgu Rhithwir o'r dyddiad hwn.
Dydd Mercher 8 Mawrth 2023	Enwebiadau yn cau Dylai'r holl gopiâu electronig o'r dogfennau enwebu gael eu lanlwytho i'r Amgylchedd Dysgu Rhithwir, a dylai'r Ffurflen Proffil Enwebeion gael ei chwblhau erbyn 12:00 (GMT) . Bydd mynediad i'r cwrs enwebu CCAC ar yr Amgylchedd Dysgu Rhithwir yn cau i Arweinwyr Gwobr Rhagoriaeth mewn Addysgu y pryd hynny.
Wythnos yn dechrau Dydd Llun 3 Gorffennaf 2023	Canlyniadau unigol yn cael eu rhyddhau Caiff enwebeion ac Is-Ganghellor/Pennaeth/Llywydd (neu rywun cyfatebol) y sefydliad enwebu wybod canlyniad eu henwebiad. Sylwch, gwaherddir cyhoeddi'r wybodaeth hon tan y cyhoeddiad swyddogol ar ddydd Iau 3 Awst 2023.
Dydd Iau 3 Awst 2023	Rhyddhau'r cyhoeddiad swyddogol AU Ymlaen yn rhyddhau cyhoeddiad swyddogol Cymrodorion Addysgu Cenedlaethol 2023.
Hydref 2023	Seremoni Wobrwyo Caiff y Seremoni Wobrwyo ei chynnal yn hydref 2023 (dyddiad i'w gadarnhau).

Mae'r ddogfen hon yn rhoi canllawiau manwl ar gyfer y broses enwebu a pharatoi a chyflwyno dogfennau enwebu ar gyfer gwobrau CCAC 2023.

2. Cyflwyniad

Pwrpas y Cynllun Cymrodoriaeth Addysgu Cenedlaethol (CCAC) yw cydnabod, gwobrwyo a dathlu unigolion sy'n gweithio mewn addysg uwch (AU) yn y DU ac sydd wedi cael effaith ragorol ar ganlyniadau myfyrwyr a'r proffesiwn addysgu.

Mae'r CCAC yn cael ei drefnu a'i redeg gan AU Ymlaen. Er mwyn cymryd rhan yn y CCAC, rhaid i sefydliadau fod yn aelodau Llawn neu Ymgysylltiol o AU Ymlaen y DU; mae cymryd rhan yn y cynllun yn un o fuddion aelodaeth, h.y. ni chodir unrhyw ffi ychwanegol ar gyfer cymryd rhan.

Gall sefydliadau'r DU sy'n aelod o AU Ymlaen gyflwyno hyd at **dri aelod o staff sy'n addysgu a/neu'n cefnogi dysgu mewn addysg uwch**. Mae'r unigolion a ddewisir i ymuno â'r CCAC yn cael eu galw'n '**enwebeion**', gan fod eu sefydliad wedi dewis eu cynnig am wobwr trwy '**enwebiad**'.

Bydd hyd at 55 o wobrau unigol yn cael eu rhoi yn 2023 i gydnabod effaith ragorol. Bydd AU Ymlaen yn hyrwyddo gwaith yr holl enillwyr ac yn arddangos eu cyfraniadau at ganlyniadau myfyrwyr a'r proffesiwn addysgu. Bydd AU Ymlaen yn hyrwyddo eu proffil cenedlaethol ymhellach trwy eu gwahodd i ymgysylltu ag amrywiaeth eang o weithgareddau AU Ymlaen, boed yn genedlaethol neu'n rhyngwladol. Ar ôl ennill gwobr, bydd rôl gan bob Cymrawd Addysgu Cenedlaethol (CAC) i'w chwarae fel llysgennad ar gyfer y cynllun a chefnogi gwelliant parhaus ym maes dysgu ac addysgu.

Caiff enwebeion wybod am ganlyniad eu henwebiad yn ystod yr wythnos yn dechrau ddydd Llun 3 Gorffennaf 2023. Caiff enwebeion llwyddiannus eu gwahodd i fynychu digwyddiad dathlu yn hydref 2023, lle y caiff eu Cymrodoriaeth Addysgu Cenedlaethol ei gyflwyno iddynt. Bydd Cymrodorion Addysgu Cenedlaethol yn aelodau awtomatig o Gymdeithas Cymrodorion Addysgu Genedlaethol. Mae rhagor o fanylion am y [Cynllun](#) a'r [Gymdeithas Cymrodorion Addysgu Genedlaethol](#) ar gael ar wefan AU Ymlaen.

Mae Panel Cynggori Gwobr Rhagoriaeth mewn Addysgu y DU yn chwarae rôl ganolog yn y broses. Mae'r Panel yn cyngori ar y meini prawf, y broses asesu a chymedroli, a dewis yr enillwyr. Mae'r Panel yn annibynnol ar AU Ymlaen ac yn cynnwys uwch gynrychiolwyr AU o wledydd y DU a rhanddeiliaid perthnasol eraill.

2.1 Newydd ar gyfer 2023

Diweddariadau i'r Dogfennau sydd i'w Cyflwyno

- + Cyn 2023, roedd yn ofynnol i'r Is-Ganghellor (neu rywun cyfatebol) gwblhau a llofnodi'r Datganiad o Gefnogaeth Sefydliadol. Mae adborth gan Is-Ganghellorion yn 2022 wedi nodi efallai na fydd hyn bob amser yn briodol, gan ei bod yn bosibl na fydd gan Is-Ganghellorion wybodaeth fanwl uniongyrchol o ymarfer yr enwebai. Felly, o 2023 ymlaen, dylai'r Datganiad o Gefnogaeth Sefydliadol (Atodiad 3) gael ei gwblhau gan gydweithiwr mewn swydd uwch yn y sefydliad enwebu, ar lefel **Dirprwy Is-Ganghellor neu rywun cyfatebol**, sy'n gyfarwydd ag ymarfer addysgu a dysgu'r enwebai, a'i gadarnhau gan Is-Ganghellor y sefydliad (neu rywun cyfatebol);

- + O 2023 ymlaen, mae 'Rhestr Wirio Arweinwyr Gwobr Rhagoriaeth mewn Addysgu' wedi'i chwblhau heb fod yn ofynnol i'w chyflwyno mwyach gyda'r dogfennau enwebai ar gyfer CCAC. Bydd y Rhestr Wirio ar gael o hyd yn yr Amgylchedd Dysgu Rhithwir i helpu Arweinwyr Gwobr Rhagoriaeth mewn Addysgu gyda'u gwaith cynllunio.
- + O 2023 ymlaen, gofynnwn i bob dogfen gael ei chyflwyno fel **ffeiliau PDF** er mwyn osgoi cynnwys newidiadau trac yn ddamweiniol yn y ceisiadau terfynol;
- + O 2023 ymlaen, bydd enwau wedi'u teipio yn lle llofnodion yn cael eu derbyn ar bob dogfen a gyflwynir, ar wahân i'r Datganiad o Gefnogaeth Sefydliadol, sy'n gofyn am lofnod electronig/wedi'i sganio yr Is-Ganghellor (neu rywun cyfatebol).
- + O 2023 ymlaen, nid yw'n ofynnol mwyach i Arweinwyr Gwobr Rhagoriaeth mewn Addysgu gyflwyno'r 'Rhif Derbynneb Cwblhau' sy'n cadarnhau bod eu henwebai wedi cyflwyno ei 'Ffurflen Proffil Enwebai' ar JISC; cynghorir bod Arweinwyr Gwobr Rhagoriaeth mewn Addysgu yn cadw 'Rhif(au) Derbynneb Cwblhau' eu henwebai ar gyfer eu cofnodion eu hunain.

Newidiadau i System Sgorio CCAC

- + O 2023 ymlaen, bydd CCAC yn cael ei sgorio trwy ddefnyddio **graddfa sgorio 0-9**, gan ddisodli'r raddfa sgorio flaenorol 0-5 pwynt. Cyflwynwyd y newid hwn gyda chefnogaeth Panel Cynghori Gwobr Rhagoriaeth mewn Addysgu y DU er mwyn i adolygwyr allu gwneud gwahaniaethau manylach rhwng llawer o Geisiadau rhagorol mewn cyd-destun hynod gystadleuol. Gweler y cyfarwyddyd sgorio CCAC wedi'i ddiweddarau yn Atodiad 4 am fanylion llawn.

Diweddariadau Eraill i'r Canllawiau

- + O 2023 ymlaen, mae newid bach i eiriad Maen Prawf 2 CCAC: **Codi proffil rhagoriaeth**
Tystiolaeth o gefnogi cydweithwyr a dylanwadu ar gymorth ar gyfer dysgu myfyrwyr a/neu'r proffesiwn addysgu, gan gynnwys ddangos effaith ac ymgysylltiad y tu hwnt i rôl academaidd neu broffesiynol arferol yr enwebai.
 Mae'r newid hwn wedi'i wneud i adlewyrchu'r ffaith, na fydd enwebeion yn cynnwys tystiolaeth o'r tu hwnt i'w rôl yn y maen prawf hwn fel arfer, y gallai rhywfaint o dystiolaeth berthnasol yn dangos sut mae enwebeion yn cefnogi cydweithwyr ac yn dylanwadu ar gymorth ar gyfer dysgu myfyrwyr a/neu'r proffesiwn addysgu ddod o fewn rôl academaidd neu broffesiynol uniongyrchol yr enwebai.
- + Mae canllawiau wedi'u diweddaru i bwysleisio bod yn rhaid i'r dystiolaeth y mae enwebeion yn ei chyflwyno ar gyfer CCAC fod yn y cyd-destun sy'n ymwneud ag addysgu a dysgu addysg uwch (yn hytrach nag, er enghraifft, addysgu a dysgu mewn cyd-destun cynradd neu uwchradd, neu o fewn gweithgaredd proffil proffesiynol nad yw'n dangos perthnasedd priodol i ddysgu a/neu addysgu AU).
- + Mae nifer o fân ddiwygiadau wedi cael eu gwneud i'r geiriad trwy'r cyhoeddiad.

3. Canllawiau ar gyfer enwebu

3.1 Cymhwysra

Mae'r Cynllun Cymrodoriaeth Addysgu Cenedlaethol (CCAC) yn agored i bob Darparwr Addysg Uwch sy'n aelod o AU Ymlaen ar draws pedair gwlad y DU, gan gynnwys Colegau Addysg Bellach a darparwyr 'amgen' annibynnol. Gwahoddir pob sefydliad i enwebu hyd at dri aelod unigol o staff a all ddangos yn eglur eu bod yn cael effaith ragorol ar ganlyniadau myfyrwyr a'r proffesiwn addysgu.

Wrth ddewis hyd at dri unigolyn i'w cyflwyno ar gyfer y cynllun, caiff sefydliadau eu hannog yn gryf i adlewyrchu amrywiaeth llawn eu corff staff. Gall unigolion fod ag unrhyw rôl sy'n cyfrannu at hyrwyddo canlyniadau myfyrwyr a'r proffesiwn addysgu. Gall staff gael eu henwebu ar unrhyw gam yn eu gyrfa a gallant gael eu cyflogi ar unrhyw fath o drefniadau cytundebol; er enghraifft, rhan-amser, amser llawn, heb fod yn barhaol (cyfnod sefydlog). Rhaid i staff fod yn addysgu a/neu'n cefnogi addysg myfyrwyr o fewn aelod-sefydliadau, gan gynnwys er enghraifft addysgu, ymchwil a/neu gymorth dysgu. Mae staff sy'n gweithio ar gampws dramor. tra eu bod wedi'u cyflogi gan Ddarparwyr Addysg Uwch y DU, yn gymwys i'w henwebu.

Ni chaniateir i unigolion wneud cais am y Cynllun Cymrodoriaeth Addysgu Cenedlaethol (CCAC) a hefyd bod yn Arweinydd Tîm GCRhA yn yr un rownd Gwobrau. Ni ellir enwebu Arweinwyr Gwobr Rhagoriaeth mewn Addysgu a Dirprwy Arweinwyr Gwobr Rhagoriaeth mewn Addysgu ar gyfer CCAC. Dylai Arweinwyr Gwobr Rhagoriaeth mewn Addysgu neu Ddirprwy Arweinwyr Gwobr Rhagoriaeth mewn Addysgu sy'n dymuno cael eu henwebu roi'r gorau i'w rôl fel Arweinydd Gwobr Rhagoriaeth mewn Addysgu neu Ddirprwy Arweinydd Gwobr Rhagoriaeth mewn Addysgu ar gyfer y cylch gwobrau perthnasol. Cysylltwch â NTFS@advance-he.ac.uk i roi gwybod am y newid a darparu manylion cysylltu ar gyfer Arweinydd Gwobr Rhagoriaeth mewn Addysgu/Dirprwy Arweinydd Gwobr Rhagoriaeth mewn Addysgu newydd. Bydd y cyfrinair ar gyfer cael mynediad i'r Amgylchedd Dysgu Rhithwir sefydliadol yn cael ei newid ar yr adeg hon i sicrhau nad oes unrhyw wrthdaro buddiannau yn codi.

Nod AU Ymlaen yw annog arferion cyflogaeth sy'n galluogi canlyniadau cyfartal wrth recriwtio, cadw staff a datblygu gyrfa o fewn y sector AU ar gyfer pob unigolyn. Mae AU Ymlaen yn disgwyl i sefydliadau sicrhau bod eu prosesau ar gyfer dewis enwebeion yn gynhwysol ac nid ydynt yn gwahaniaethu yn erbyn unigolion ar sail cydraddoldeb ac amrywiaeth, mewn perthynas â'r nodweddion gwarchoddedig a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Yn ogystal, dylai prosesau dewis fod yn gynhwysol o ran yr amrywiaeth o ffyrdd y caiff staff sy'n addysgu ac yn cefnogi dysgu eu cyflogi yn y sefydliad. Mae data blaenorol yn dangos o fewn CCAC bod y grwpiau canlynol heb gael eu cynrychioli'n ddigonol yn flaenorol:

- + grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn berthynol i ystadegau HESA;
- + yr amrywiaeth eang o staff proffesiynol sy'n cefnogi dysgu;
- + staff rhan-amser, ffracsïynol, sesiynol neu sy'n cael eu talu fesul awr;
- + staff AU o'r sector colegau a darparwyr amgen;
- + gwrywod yn berthynol i ystadegau HESA.

Caiff sefydliadau eu hannog i ystyried sut y gall y broses ddewis fewnol gael ei defnyddio i greu proffil cadarnhaol ar gyfer yr enwebai(enwebeion) a ddewisir a sut y byddant yn cefnogi enwebeion sy'n aflwyddiannus ym mhroses ddyfarnu CCAC gan ei bod yn hynod gystadleuol.

Dylai'r Cais (gweler y diffiniad isod) fod yn waith yr enwebai yn unig ac mae AU Ymlaen yn cadw'r hawl i brosesu enwebiadau trwy feddalwedd atal llên-ladrata.

3.2 Dogfennau enwebu

Mae **enwebiadau** yn cynnwys y dogfennau a'r ffurflenni a restrir isod. Dylai'r gwaith o gyflwyno'r enwebiad llawn gael ei gydgyssylltu gan yr Arweinydd Gwobr Rhagoriaeth mewn Addysgu (gweler Adran 3.5). Dylai dogfennau gael eu lanlwytho i [Amgylchedd Dysgu Rhithwir](#) AU Ymlaen a dylai ffurflenni ac arolygon gael eu cwblhau ar-lein trwy [Arolygon Ar-lein](#) AU Ymlaen.

Mae dogfennau enwebu yn cynnwys y canlynol:

- **Cais:** datganiad wedi ei gwblhau gan yr enwebai trwy ddefnyddio'r ffurflen y gellir ei lawrlwytho yn disgrifio ei effaith ragorol yn erbyn pob un o'r tri maen prawf (uchafswm o 1500 o eiriau fesul maen prawf dyfarnu) a hefyd Datganiad Cydestun cyffredinol (hyd at 300 o eiriau) a Rhestr Cyfeiriadau ar gyfer dyfyniadau a ddefnyddir o fewn y Cais (heb eu cynnwys yn nifer y geiriau); gweler Atodiad 2 – fersiwn Cymraeg ar gael. Cyflwynwch pob dogfen fel ffeil PDF.
- **Datganiad o Gefnogaeth** wedi ei lofnodi: datganiad yn rhoi cymeradwyaeth a phersbectif sefydliadol i gefnogi'r Cais. O 2023 ymlaen, cynghorwn fod y datganiad hwn yn cael ei ysgrifennu gan gydweithiwr mewn swydd uwch yn y sefydliad enwebu (ar lefel Dirprwy Is-Ganghellor neu rywun cyfatebol) sy'n gyfarwydd ag ymarfer addysgu a dysgu'r enwebai trwy ddefnyddio'r ffurflen y gellir ei lawrlwytho (uchafswm o 1000 o eiriau). Dylai'r datganiad gael ei gadarnhau gan Is-Ganghellor y sefydliad (neu rywun cyfatebol). Gweler Atodiad 3 – fersiwn Cymraeg ar gael. Cyflwynwch y cais fel ffeil PDF.
- **Ffurflen Proffil Enwebai:** [ffurflen ar-lein](#) i'w chwblhau gan yr enwebai. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth gefndir am y tîm ac mae'n gofyn am broffil cryno 50 o eiriau a phroffil hwy 350 o eiriau. Dylai enwebeion ddatgan y rhagenwau sy'n well ganddynt. Dylai proffiliau personol gael eu hysgrifennu yn y trydydd person (h.y. 'Mae Dawn Pendragon yn gweithio ym Mhrifysgol Heworth'). Ar ddiwedd y ffurflen dylai'r enwebai nodi'r rhif derbynneb cwblhau a'i roi i'r Arweinydd Gwobr Rhagoriaeth mewn Addysgu ar gyfer ei gofnodion ei hun yn unig (nid yw'r rhif yma yn ffurfio rhan o'r cais mwyach). Mae enghreifftiau o broffiliau personol blaenorol i'w gweld ar [wefan AU Ymlaen](#) er gwybodaeth;
- **Ffotograffau:**
 - Tri ffotograff gwahanol eglur iawn o'r tîm 1Mb a 300dpi (o leiaf) (sylwer, gellir gwneud hyn ar y rhan fwyaf o ffonau clyfar a chamerau nad ydynt yn rhai proffesiynol);
 - Fformat JPEG;

- Dylai pob ffotograff fod mewn fformat tirlun;
- Mae cyflwyno ffotograffau yn dangos bod Darparwr Addysg Uwch wedi ceisio cytundeb yr enwebai i AU Ymlaen ddefnyddio'r delweddau hyn.
- **Arolwg Monitro Cyfle Cyfartal:** [arolwg ar-lein](#) i'w gwblhau gan yr enwebai. Caiff y data yma eu defnyddio'n ddiennw i adrodd ar gydraddoldeb ac amrywiaeth.

3.3 Gofynion fformatio

Dylai'r confensiynau canlynol gael eu dilyn wrth gyflwyno'r Cais. Mae hyn i sicrhau tegwch a chysondeb yn y broses adolygu ar draws pob enwebai.

- **Nifer y geiriau:** pan fydd terfyn wedi ei osod ar gyfer nifer y geiriau, dylai pob pennawd adran, testun o fewn tablau, graffiau (yr holl allwedd, penawdau, echelinau a labeli), diagramau, dyfyniadau yn y testun, ôl-nodiadau a nodau rhifiadol gael eu cynnwys wrth gyfrif nifer y geiriau. Ceir uchafswm nifer y geiriau yn Adrannau A B Cais yr enwebai; ni fydd adolygwyr yn ystyried unrhyw eiriau sy'n fwy na therfyn nifer y geiriau.
- **Ffont:** Arial 12 pwynt.
- **Diagramau:** wedi eu caniatáu. Dylai unrhyw destun sy'n ymddangos o fewn y diagram gael ei ychwanegu at nifer y geiriau terfynol ar gyfer yr adran berthnasol.
- **Penawdau a throedynnau:** dylai penawdau gael eu defnyddio ar gyfer enw'r enwebai a'r sefydliad enwebu a throedynnau ar gyfer rhifau'r tudalennau.
- **Dyfyniadau:** gellir eu cynnwys yng nghorff y testun neu eu rhoi fel ôl-nodiadau (yn hytrach na throedynnau) ar gyfer pob adran. Dylid eu hychwanegu at nifer y geiriau terfynol.
- **Hyperddolenni:** [peidiwch](#) â'u cynnwys. Mae hyperddolenni yn cyfrif fel gwybodaeth ychwanegol ac ni fydd adolygwyr yn eu hystyried wrth sgorio'r Cais.
- **Lluniau a logos:** [peidiwch](#) â'u cynnwys.
- **Cadw ffeiliau:** Dylai'r confensiwn enwi canlynol gael ei ddefnyddio ar gyfer yr holl ffeiliau a gyflwynir: <Initial.Surname_Institution_DocumentName> (e.e. J.Bloggs_UniofPoppleton_Claim)

Mae AU Ymlaen a Phanel Cyngori Gwobr Rhagoriaeth mewn Addysgu y DU yn cadw'r hawl i wrthod unrhyw enwebiadau sydd heb fodloni'r gofynion hyn. Felly cyfrifoldeb y sefydliad enwebu a'r enwebai unigol yw sicrhau bod yr enwebiad yn bodloni'r gofynion o ran fformatio, llofnodion gofynnol a nifer y geiriau.

3.4 Monitro data cydraddoldeb ac amrywiaeth

Caiff yr holl ddata personol a ddarperir trwy gyflwyno enwebiad ar gyfer CCAC eu cadw'n gyfrinachol gan AU Ymlaen a chaiff dogfennau perthnasol yn unig eu rhannu â'r adolygwyr a Phanel Cynghori Gwobr Rhagoriaeth mewn Addysgu y DU fel yr esbonnir o fewn y ddogfen ganllaw.

Mae AU Ymlaen wedi ymrwmo i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth ac yn casglu data ar enwebeion ar gyfer monitro ystadegol trwy'r [Arolwg Monitro Cyfle Cyfartal](#). Nid yw'r wybodaeth a ddarperir yn ffurfio rhan o'r Cais ac nid yw ar gael i'r adolygwyr ond fe'i defnyddir yn ddiennw gan AU Ymlaen ar gyfer monitro ystadegol data'r enwebai a'r enillydd.

Mae cyfrinachedd data'r enwebeion yn cael ei gynnal gan AU Ymlaen. Mae AU Ymlaen yn casglu'r wybodaeth a ddarperir gan bob enwebai ac yn defnyddio'r data a gesglir yn ddiennw i adrodd yn flynyddol ar gydraddoldeb ac amrywiaeth i Banel Cynghori Gwobr Rhagoriaeth mewn Addysgu y DU.

Mae [Arolwg Monitro Cyfle Cyfartal](#) yn arolwg ar-lein y dylai'r enwebai a'r Arweinydd Gwobr Rhagoriaeth mewn Addysgu ei gwblhau. Sut bynnag, **dylai'r Arweinydd Gwobr Rhagoriaeth mewn Addysgu gadarnhau gyda'i enwebeion eu bod wedi cwblhau'r arolwg.**

Os hoffai unrhyw un wybod rhagor am y modd y mae AU Ymlaen yn casglu, storio a defnyddio gwybodaeth bersonol am enwebeion CCAC, cyfeiriwch at ein datganiad preifatrwydd (Atodiad 5).

3.5 Cyflwyno a derbyn enwebiadau

Rhaid i ddogfennau enwebu gael eu cyflwyno gan gyswllt canolog a enwir (neu ei ddirprwy dynodedig) (yr Arweinydd Gwobr Rhagoriaeth mewn Addysgu) yn y sefydliad trwy system ar-lein a letyir ar Amgylchedd Dysgu Rhithwir AU Ymlaen. Caiff Arweinwyr Gwobr Rhagoriaeth mewn Addysgu enw defnyddiwr a chyfrinair sefydliadol i fewngofnodi ar yr Amgylchedd Dysgu Rhithwir a fydd yn cynnig modd iddynt lanlwytho'r enwebiad(au). Rhoddir cyfarwyddiadau llawn yn Llawlyfr Arweinwyr Gwobr Rhagoriaeth mewn Addysgu 2023.

Rhaid i'r holl ddogfennau enwebu gael eu lanlwytho erbyn 12:00 hanner dydd (GMT) ar ddydd Mercher 8 Mawrth 2023. Os yw'r sefydliad yn enwebu mwy nag un unigolyn, gall yr Arweinydd Gwobr Rhagoriaeth mewn Addysgu lanlwytho'r dogfennau enwebu ar gyfer pob un o'r enwebeion gan ddefnyddio'r un enw defnyddiwr a chyfrinair sefydliadol; felly mae'n hollbwysig bod y confensiwn enwi ffeil cywir yn cael ei fabwysiadu (Adran 3.3). Mae'r Arweinydd Gwobr Rhagoriaeth mewn Addysgu yn gweithredu ar ran ei sefydliad a bydd AU Ymlaen yn cymryd ei fod yn gweithredu yn unol â disgwyliadau ei uwch reolwyr wrth gyflwyno enwebiad(au) ei sefydliad.

Dylid cyflwyno ceisiadau yn Gymraeg neu yn Saesneg; rhaid i'r rhai sy'n cyflwyno cais yn Gymraeg gynnwys fersiwn Saesneg o bob dogfen hefyd at ddibenion adolygu.

Bydd enwebiadau wedi eu lanlwytho sydd wedi cael eu derbyn yn cael eu cydnabod trwy ebost awtomatig a anfonir at yr Arweinydd Gwobr Rhagoriaeth mewn Addysgu; bydd yr

ebost hwn yn rhoi'r hyder bod cais wedi cael ei wneud ond ni fydd yn cadarnhau bod yr holl ddogfennaeth ofynnol yn bresennol.

Ar ôl cyflwyno cais, bydd AU Ymlaen yn gwirio bod yr holl ddogfennau wedi cael eu derbyn a bod modd eu cyrchu. Bydd AU Ymlaen yn cadarnhau bod yr holl ddogfennau gofynnol wedi cael eu derbyn mewn ebost a anfonir i'r Arweinydd Gwobr Rhagoriaeth mewn Addysgu o'r blwch post ntfs@advance-he.ac.uk erbyn 12:00 (GMT) ar ddydd Mercher 15 Mawrth 2023. Os nad yw'r Arweinydd Gwobr Rhagoriaeth mewn Addysgu wedi derbyn cadarnhad gan AU Ymlaen erbyn 12:00 (GMT) ar ddydd Mercher 15 Mawrth yna cynghorwn ei fod yn cysylltu ag AU Ymlaen i holi a yw wedi cael ei dderbyn, naill ai trwy'r ebost yn ntfs@advance-he.ac.uk cyn y dyddiad cau terfynol sef 12:00 (GMT) ar ddydd Gwener 17 Mawrth 2023.

4. Meini prawf CCAC

Caiff holl Geisiadau enwebeion eu hasesu ar sail y dystiolaeth a ddarperir mewn perthynas â phob un o dri maen prawf CCAC.

Maen Prawf 1 CCAC: Rhagoriaeth unigol

Tystiolaeth o wella a thrawsffurfio canlyniadau myfyrwyr a/neu'r proffesiwn addysgu, gan ddangos effaith sy'n gymesur â chyd-destun yr unigolyn a'r cyfleoedd y mae hynny'n eu cynnig.

Maen Prawf 2 CCAC: Codi proffil rhagoriaeth

Tystiolaeth o gefnogi cydweithwyr a dylanwadu ar gymorth ar gyfer dysgu myfyrwyr a/neu'r proffesiwn addysgu, gan gynnwys dangos effaith ac ymgysylltiad y tu hwnt i rôl academaidd neu broffesiynol arferol yr enwebai.

Maen Prawf 3 CCAC: Datblygu rhagoriaeth

Dangos ymrwymiad yr enwebai at ddatblygiad proffesiynol parhaus a'i effaith o ran addysgu a dysgu a/neu gymorth dysgu.

Bydd adolygwyr yn chwilio am dystiolaeth o **gyrhaeddiad**, **gwerth** ac **effaith**, sydd i'w gweld o fewn y naratif a gyflwynir yn Adran B. Sylwch, mae pob un o'r tri maen prawf uchod yn cael ystyriaeth gyfartal yn y broses asesu a phwysiad cyfartal yn y sgôr gyffredinol.

5. Datblygu'r Cais

Mae tair adran i'r 'Cais':

- **Adran A:** Datganiad Cyd-destun (uchafswm o 300 o eiriau);
- **Adran B:** Cais yn erbyn Meini Prawf CCAC (uchafswm o 1500 o eiriau yn erbyn pob maen prawf);
- **Adran C:** Rhestr Cyfeiriadau

Dim ond Adran B, sy'n cynnwys tystiolaeth yn erbyn pob un o dri maen prawf CCAC, sy'n cael ei sgorio gan yr adolygwyr; nid yw'r Datganiad Cyd-destun a'r Rhestr Cyfeiriadau yn cael eu sgorio.

5.1 Adran A: Datganiad Cyd-destun

Mae AU Ymlaen a Phanel Cynghori Rhagoriaeth mewn Addysgu y DU yn cydnabod y caiff rhagoriaeth mewn addysgu a chymorth dysgu ei leoli o fewn cyd-destunau academiaidd, proffesiynol a sefydliadol penodol. Caiff natur y cyd-destun sefydliadol a chyfle pob enwebai unigol i gyfrannu ei ystyried.

Mae'r cynllun yn cydnabod effaith ac ymgysylltiad y tu hwnt i rôl academiaidd neu broffesiynol arferol yr enwebai. Er enghraifft, efallai fod enwebai wedi gwneud cyfraniad sylweddol at ddysgu ac addysgu mewn maes sydd y tu allan i'w brif rôl.

Bydd cryn dipyn o amrywiaeth rhwng enwebeion, gan adlewyrchu'r gwahaniaeth ym mhrofiad unigolion, eu rolau a'u cyd-destunau sefydliadol. Mae'r Datganiad Cyd-destun (300 o eiriau) ar ddechrau Cais yr enwebai ac ni chaiff ei sgorio gan yr adolygwyr. Dylai enwebeion ddefnyddio'r adran hon i nodi cyd-destun ei rôl, lleoliad, maes a/neu faes gwaith.

Mae'r Datganiad Cyd-destun yn darparu ffrâm ar gyfer Adran B y Cais ac yn cynnig modd i adolygwyr lywio eu hunain wrth ystyried y dystiolaeth yn erbyn pob un o'r meini prawf. Dylai enwebeion ddefnyddio'r Datganiad Cyd-destun i esbonio cyd-destun ei sefydliad a'i rôl(rolau) proffesiynol a chyfrifoldebau yn y sefydliad hwnnw. Oherwydd natur bersonol yr wybodaeth hon, dylai enwebeion ysgrifennu yn y person cyntaf (defnyddio 'Rwyf').

Os yw'r naratif yn Adran B y Cais yn defnyddio tystiolaeth o weithgarwch yr enwebai mewn sefydliad(au) blaenorol, ei waith yn y sector ehangach a/neu ddiwydiant/cyrff sector, dylid esbonio hyn hefyd yn y Datganiad Cyd-destun. Dylai enwebeion egluro natur eu hymarfer addysgu a dysgu. Gall enwebeion helpu adolygwyr i roi'r dystiolaeth y maent yn ei chyflwyno o dan Faen Prawf 1 yn ei chyd-destun trwy ddefnyddio'r Datganiad Cyd-destun i egluro pwy yw eu dysgwyr (er enghraifft, myfyrwyr neu gydweithwyr), eu disgyblaeth/maes arbenigol, a thrwy ddarparu amlinelliad byr o gwmpas a graddfa eu harferion addysg uwch.

Ni ddylid defnyddio'r Datganiad Cyd-destun i ddarparu gwybodaeth a fyddai'n ychwanegu tystiolaeth o effaith at naratif yr enwebai a amlinellir yn Adran B y Cais. Mae rhai enghreifftiau **o'r hyn na ddylid ei gynnwys** yn y Datganiad Cyd-destun (ond i'w gynnwys yn Adran B yn lle hynny) fel a ganlyn:

- + Cymryd rhan mewn mentrau addysgu a dysgu (e.e. gellir ei ddefnyddio o bosibl yn y dystiolaeth ar gyfer Maen Prawf 1)
- + Gwaith sy'n effeithio ar gyrff proffesiynol neu addysg uwch ehangach (e.e. gellid ei ddefnyddio o bosibl yn y dystiolaeth ar gyfer Maen Prawf 2).
- + Cymwysterau proffesiynol a/neu ymgysylltiad mewn gweithgareddau dysgu proffesiynol parhaus (e.e. gellir ei ddefnyddio o bosibl yn y dystiolaeth ar gyfer Maen Prawf 3)
- + Gwobrau cysylltiedig ag addysgu a dysgu neu gwobrau sefydliadol ar gyfer arloesi
- + Meysydd ymchwil, ysgoloriaeth a/neu ymarfer proffesiynol

Caiff cyd-destun a strwythur y Datganiad Cyd-destun ei bennu gan yr enwebai er mwyn dangos yn y ffordd orau bosibl y rhannau perthnasol o'i gyd-destun sy'n lleoli'n effeithiol y dystiolaeth a fydd yn dilyn yn Adran B o'r cais. Dylai enwebeion osgoi anfon Datganiadau Cyd-destun sy'n cynnwys llawer o fanylion am hanes ac enw da ei sefydliad.

Mae'r tabl isod yn rhoi darnau dienw o Ddatganiadau Cyd-destun ceisiadau llwyddiannus blaenorol, o amrywiaeth o gyd-destunau disgyblaethol a gwasanaeth proffesiynol gwahanol i roi enghraifft o'r math o wybodaeth sy'n arbennig o ddefnyddiol i'r adolygwyr:

<p>Yn fyfyrwr Addysg Uwch di-draddodiadol, enillais fy ngradd gyntaf (BSc (Anrh) Bioleg) yng nghanol fy 30au ym Mhrifysgol St Damien. Dechreuais addysgu israddedigion o ddisgyblaethau gwahanol fel Darlithydd Cyswllt yn ystod fy astudiaethau ôl-radd a PhD, a'r prentisiaethau ymchwil a ddilynodd. Fe wnes i benderfyniad i symud i faes Datblygiad Academaidd/Addysgol yn 2009. Ers dros 4 blynedd gweithiais fel Uwch a Phrif Ddarlithydd (SL; PL) gan arwain a rheoli'r Dystysgrif Dysgu ac Addysgu mewn Addysg Uwch i Raddedigion (PGCLTHE). Ymunais â Phrifysgol Blandford (2015) fel Pennaeth Datblygid Staff Academaidd (ASD) gan ddymuno ehangu fy mhrofiad o ddiwylliannau sefydliadau ac ymgymryd â rôl fwy strategol. Yn ddiweddarach (2019) fe wnes i benderfyniad i ddychwelyd at rôl ymarferdd/yn canolbwyntio ar fyfyrwyr gan arwain y cwrs datblygiad proffesiynol cychwynnol ar gyfer academyddion prawf.</p>
<p>Mae fy mhrif faes addysgu i fyfyrwyr BA (Anrh) Gwneud Printiau sy'n cael dosbarthiadau ymarferol yn y stiwdio bob dydd o 9am tan 4pm. Rwy'n addysgu amrywiaeth eang o dechnegau arbenigol – digidol a thraddodiadol – gan gynnwys engrafio, ysgythr, pwynt sych ac aquatint, ac weithiau arddangosfeydd a phrosiectau uniongyrchol gyda myfyrwyr ar draws pob un o'r tair blwyddyn. Rwy'n rheoli tîm gwneud printiau sy'n cynnwys rhwng pedwar a phum darlithydd gwadd. Fy oriau addysgu craidd arferol yw 11 awr yr wythnos, a phan fyddaf yn cydlynu arddangosfeydd o waith myfyrwyr, mae hyn yn cynyddu i oddeutu 20 awr yr wythnos, weithiau mwy. Rwy'n gwasanaethu fel tiwtor personol i'r holl fyfyrwyr ail flwyddyn ac yn darparu tiwtorialau personol rheolaidd i'r myfyrwyr. Mae'r addysgu a wnaif yn waith sgiliau ymarferol seiliedig ar stiwdio, sy'n cynnwys arddangosiadau ymarferol, technegau digidol a gweithio gydag arbenigwyr gwadd. Rwy'n defnyddio addysgu grŵp, tiwtorialau ymarferol un i un a thechnegau hyfforddi.</p>
<p>Bues yn Ddarlithydd mewn Ystadegau yn yr Ysgol Mathemateg, Ystadegau a Chyfrifiadura ym Mhrifysgol Ensbury ers Mehefin 2010. Mae fy nghyfrifoldebau proffesiynol yn cynnwys addysgu, ymchwil methodolegol ac addysgol, allgymorth a recriwtio, a rhyngwladolrwydd. Rwy'n addysgu Ystadegau i fyfyrwyr israddedig sydd wedi cofrestru ar raglenni mewn Mathemateg ac Ystadegau, gan gynnwys cyrsiau uwch i fyfyrwyr ar raglenni Meistr integredig. Rwyf hefyd yn addysgu Ystadegau i'r rhai nad ydynt yn arbenigwyr pwnc ar draws ystod eang o ddisgyblaethau, gan gynnwys Fferylliaeth, Marchnata a Seicoleg.</p> <p>Er fy mod wedi ymrwmo i bob agwedd ar fy swydd, addysgu yw'r maes rwyf yn teimlo'n fwyaf angerddol amdano. Rwyf yr un mor frwdfrydig dros wella profiad addysgu a dysgu y rhai nad ydynt yn arbenigwyr pwnc a'r rhai sydd wedi dewis Mathemateg ac Ystadegau fel eu pwnc cyntaf, ac mae fy nulliau addysgu arloesol wedi canolbwyntio ar y ddau grŵp. Rwyf hefyd yn hyrwyddwr angerddol o lythrennedd ystadegol gyda'r rhai rwy'n cwrdd â nhw y tu allan i'm prif rôl, gan gynnwys meithrin gwyddonwyr ifanc rwy'n dod ar eu traws trwy fy ngwaith allgymorth a hefyd athrawon ysgol, cydweithredwyr diwydiannol ac ymarferwyr ar draws ystod eang o feysydd.</p>

5.2 Adran B: Cais yn erbyn tri maen prawf CCAC

Dylai enwebeion ddefnyddio Adran B y Cais i amlinellu'r dystiolaeth ar gyfer **cyrhaeddiad, gwerth ac effaith** eu hymarfer yn erbyn y tri maen prawf yn eu tro. Ni all pob un o dair rhan Adran B fod yn fwy na 1500 o eiriau. Mae adolygwyr yn 'sgorio' pob un o'r tair rhan ar wahân. Mae Atodiad 4 yn amlinellu'r cyfarwyddyd sgorio a ddefnyddir gan yr adolygwyr i roi sgorau ar gyfer y dystiolaeth a nodir yn erbyn pob un o'r tri maen prawf.

Ceir sawl ffordd wahanol o gyflwyno tystiolaeth ar gyfer pob un o'r tri maen prawf dyfarnu, fel y bo'n briodol i natur ymarfer addysg uwch yr enwebai. Rhoddir rhai enghreifftiau isod, ond ni ddylai enwebeion deimlo eu bod wedi eu cyfyngu gan yr enghreifftiau hyn oherwydd maent wedi eu cynnwys i ddarparu mathau dangosol o dystiolaeth yn unig yn erbyn pob maen prawf.

Pwyntiau allweddol:

- + dylai enwebeion roi sylw i bob maen prawf a gwneud cais penodol yn erbyn pob maen prawf yn ei dro;
- + dylai enwebeion ddangos yr effaith ar ganlyniadau myfyrwyr a/neu'r proffesiwn addysgu dros gyfnod parhaus;
- + dylai enwebeion ddangos eu bod yn arddel egwyddorion cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn eu hymarfer;
- + bydd rhaid i enwebeion ddefnyddio tystiolaeth benodol o effaith i gefnogi eu cais yn erbyn pob maen prawf.
- + gallai rhai enghreifftiau o ffynonellau posibl o dystiolaeth gynnwys rhai o'r canlynol (ond heb eu cyfyngu iddynt), yn dibynnu ar gyd-destun yr enwebai:
 - o adborth a gwerthusiadau myfyrwyr;
 - o data myfyrwyr (dilyniant, cyflawniad, cadw, ymgysylltu ac ati)
 - o adborth/data o waith gyda chyfoedion, mentrau newydd/mentrau mewn lleoliadau newydd, datblygu polisi ac ati.
 - o defnyddio adnoddau'r enwebai, dulliau, cyhoeddiadau ac ati.
 - o gweithio gyda phartneriaid/sefydliadau allanol, cyrff proffesiynol eraill, ac ati, mewn perthynas ag ymarfer AU.
 - o cyflawniadau a gydnabuwyd megis gwobrau, achrediadau, cyllid, llwyddiannau, partneriaethau allanol, ac ati.
 - o data meintiol i ddangos graddfa, cyrhaeddiad ac effaith gwaith yr enwebai;
- + wrth ddewis tystiolaeth briodol, dylai enwebeion ystyried:
 - o defnyddio tystiolaeth ystyrlon ac argyhoeddiadol i gefnogi'r cais; canolbwyntio ar ffynonellau o safon ac nid maint ffynonellau gwahanol;
 - o cydbwysu'r mathau o dystiolaeth; er enghraifft, cymysgedd o ddata ansoddol a meintiol lle y bo'n briodol yn ôl cyd-destun yr enwebai. Er ei fod yn ffynhonnell ddefnyddio i'w chynnwys, fe'i argymhellir er mwyn osgoi gorddibynnu ar dystiolaeth;
 - o cydbwysedd o dystiolaeth ar draws y tri maen prawf;
 - o cydbwysedd rhwng tystiolaeth ddiweddar a hŷn i ddangos eu bod yn gyfredol, a bod arfer wedi'i gynnal;
 - o cynnwys tystiolaeth sy'n ymwneud ag addysgu a dysgu yng nghyd-destun addysg uwch yn unig (yn hytrach nag, er enghraifft, addysgu a dysgu mewn cyd-destun cynradd neu uwchradd, neu o fewn gweithgarwch proffil proffesiynol nad yw'n dangos perthnasedd priodol i ddysgu a/neu addysgu AU).

- + Wrth ysgrifennu eich cais, dylech ystyried sut mae eich arddull ysgrifennu a fframio'r Cais yn cynrychioli orau rhagoriaeth eich ymarfer ar gyfer ystod amrywiol o ddarllenwyr.

Y sefydliad enwebu a'r enwebai sy'n penderfynu'r hyn a ystyrir yn dystiolaeth briodol o effaith, ond caiff enwebeion eu hannog i sicrhau bod llais y myfyriwr yn cael ei egluro o fewn Adran B y Cais. Wrth gwrs bydd enwebeion sy'n addysgu a/neu'n cefnogi dysgu o fewn ystod eang o gyd-destunau sy'n cael ei ystyried yn addysg uwch yn y DU yn arddangos arddulliau cyfathrebu a dadansoddol gwahanol a chaiff hyn ei ystyried yn y broses asesu. Bydd Ceisiadau yn amrywio'n sylweddol o ran arddull a chyd-destun; nid oes unrhyw arddull neu 'fformiwla' 'disgwyliedig' i'w ddilyn.

Cyrhaeddiad, Gwerth ac Effaith

Bydd adolygwyr am weld tystiolaeth sy'n arddangos **cyrhaeddiad, gwerth ac effaith** ymarfer yr enwebai. Dylai enwebeion gadw'r gofyniad hwn mewn cof a'r nod o ddarparu tystiolaeth sy'n dangos cydbwysedd o'r tair nodwedd yma ar draws y cais.

Cyrhaeddiad: Graddfa'r dylanwad. Er y gall cyrhaeddiad 'daearyddol' fod yn bwysig ar gyfer rhai enwebeion, mae'n ddefnyddiol ystyried ffyrdd eraill y gall enwebai ddangos cyrhaeddiad. Gall rhai enwebeion ddangos cyrhaeddiad ar lefel adran/cyfadran/sefydliad/cenedlaethol/byd-eang er enghraifft, ond gallai eraill ddarparu tystiolaeth o sut y mae eu hymarfer wedi cyrraedd gwahanol grwpiau o fyfyrwyr, unigolion a/neu sefydliadau (e.e. ôl-raddedigion, myfyrwyr cymudo, myfyrwyr Duon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, dysgwyr ar-lein ac ati).

Gwerth: Y budd a gaiff myfyrwyr a staff (a all fod mewn ffurfiau gwahanol). Gall gwerth gynnwys tystiolaeth ansoddol megis newid yn yr ymagwedd at ddysgu ymysg myfyrwyr neu staff. Er enghraifft, gellir darparu tystiolaeth ynghylch sut y mae'r gwaith a ddisgrifir wedi ychwanegu gwerth at brofiad dysgu'r myfyrwyr neu at ymarfer addysgu. Gall gwerth hefyd gyfeirio at ansawdd profiadau gwell ac ymarferion ystyrllon. Gall rhai enwebeion fod yn gweithio mewn lleoliadau lle y ceir elfennau moesegol penodol cadarnhaol i'w hymarfer hefyd.

Effaith: Y gwahaniaeth sydd wedi cael ei wneud i bolisi, ymarfer a/neu ganlyniadau myfyrwyr yng nghyd-destun AU o ganlyniad i weithgaredd. Y ffocws yma yw ar dystiolaeth benodol i ddangos bod newid cadarnhaol yn digwydd. Gall tystiolaeth o effaith fod yn feintiol ac yn ansoddol, ond mae'n bwysig dangos sut y mae'r gweithgareddau a ddisgrifir wedi newid ymarfer addysgu a/neu ganlyniadau dysgu.

Bodloni Maen Prawf 1: Rhagoriaeth unigol

Tystiolaeth o wella a thrawsffurfio canlyniadau myfyrwyr a/neu'r proffesiwn addysgu, gan ddangos effaith sy'n gymesur â chyd-destun yr unigolyn a'r cyfleoedd y mae hynny'n eu cynnig.

I roi rhai enghreifftiau, gallai Maen Prawf 1 gael ei ddangos trwy ddarparu tystiolaeth o effaith:

- + ennyn chwilfrydedd a diddordeb myfyrwyr mewn ffyrdd sy'n ysbrydoli ymrwymiad at ddysgu;

- + trefnu a chyflwyno adnoddau o safon uchel mewn ffyrdd hygyrch, cydlynol a chreadigol, sydd yn ei dro yn amlwg yn gwella dysgu myfyrwyr;
- + cydnabod a chefnogi amrywiaeth lawn gofynion dysgu myfyrwyr;
- + defnyddio canlyniadau ymchwil, ysgoloriaeth ac ymarfer proffesiynol perthnasol mewn ffyrdd sy'n ychwanegu gwerth at addysgu a dysgu myfyrwyr;
- + ymgysylltu â llenyddiaeth sefydledig a chyfrannu ato neu at sylfaen dystiolaeth yr enwebai ei hun ar gyfer addysgu a dysgu.

Bodloni Maen Prawf 2: Codi proffil rhagoriaeth

Tystiolaeth o gefnogi cydweithwyr a dylanwadu ar gymorth ar gyfer dysgu myfyrwyr a/neu'r proffesiwn addysgu, gan gynnwys ddangos effaith ac ymgysylltiad y tu hwnt i rôl academiaidd neu broffesiynol arferol yr enwebai.

I roi rhai enghreifftiau, gallai Maen Prawf 2 gael ei ddangos trwy ddarparu tystiolaeth o effaith:

gwneud cyfraniadau rhagorol at ddatblygiad proffesiynol cydweithwyr mewn perthynas â hyrwyddo a gwella addysg myfyrwyr AU mewn cyd-destun AU;

cyfrannu at fentrau adrannol/cyfadrannol/sefydliadol/cenedlaethol i hwyluso addysg myfyrwyr mewn cyd-destun AU;

- + cyfrannu at newid ystyrion a chadarnhaol a/neu ei gefnogi mewn perthynas ag ymarfer, polisi a/neu weithdrefnau addysgegol mewn cyd-destun AU.

Bodloni Maen Prawf 3: Datblygu rhagoriaeth

Dangos ymrwymiad yr enwebai at ddatblygiad proffesiynol parhaus a'i effaith o ran addysgu a dysgu a/neu gymorth dysgu.

I roi rhai enghreifftiau, gallai Maen Prawf 3 gael ei ddangos trwy ddarparu tystiolaeth o effaith:

- + adolygu a gwella ymarfer proffesiynol unigol yn barhaus;
- + ymgysylltu â gweithgareddau datblygiad proffesiynol sy'n gwella arbenigedd yr enwebai mewn addysg a chymorth dysgu;
- + cymryd rhan mewn datblygiad proffesiynol parhaus mewn perthynas â'r arferion effeithiol a ddisgrifir ym Maen Prawf 1 neu 2;
- + dangos sut mae cyfraniadau penodol sy'n deillio o ddatblygiad proffesiynol yr enwebai wedi galluogi gwelliannau sylweddol mewn ymarfer addysgu, canlyniadau a/neu brofiad myfyrwyr.

Bydd adolygwyr yn defnyddio cyfarwyddyd sgorio (Atodiad 4) i 'sgorio' pob un o dair rhan Adran B o Gais yr enwebai yn erbyn pob un o dri maen prawf CCAC; ceir uchafswm sgôr posibl o 27 gan bob un o'r tri adolygwr.

5.3 Adran C: Rhestr Cyfeiriadau

Mae'r Cais yn cynnwys adran derfynol (Adran C) lle y dylai enwebeion ddarparu rhestr o gyfeiriadau y maent wedi eu defnyddio o fewn y dystiolaeth a ddarparant yn erbyn pob

maen prawf. Er enghraifft, efallai fod enwebeion yn defnyddio canlyniadau ymchwil perthnasol, ysgoloriaeth ac ymarfer proffesiynol a/neu ymgysylltu â llenyddiaeth sefydledig a chyfrannu ato neu at sylfaen dystiolaeth yr enwebai ei hun ar gyfer addysgu a dysgu.

Ni ddylai enwebeion restru eu holl gyhoeddiadau a chyflwyniadau yn unig ond yn hytrach dylent ganolbwyntio ar y rhai sydd wedi eu cysylltu'n uniongyrchol â'r deunyddiau yn Adran B. Dylai enwebeion hefyd fod yn ymwybodol na ddylai'r Rhestr Cyfeiriadau gael ei defnyddio i ychwanegu hyperddolenni i hyrwyddo deunyddiau ategol oherwydd ni fydd adolygwyr yn dilyn y rhain.

Er nad yw terfyn wedi ei osod ar gyfer nifer y geiriau yn y Rhestr Cyfeiriadau, os oes gan restr enwebai fwy nag oddeutu 20, neu lai na 2 gyfeiriad, mae'n debygol o fod yn anghyson ag enwebiadau llwyddiannus. Ni ddylai'r rhestr gynnwys unrhyw ddyfyniadau sydd heb eu cyfeirio atynt yn uniongyrchol o fewn y dystiolaeth a ddarperir yn Adran B o'r Cais.

Nid yw'r Rhestr Cyfeiriadau yn rhan o'r broses adolygu ac felly ni chaiff ei 'sgorio' gan yr adolygwyr. Pwrpas y rhestr yw cynnig modd i adolygwyr nodi ffynonellau a rhoi credyd priodol i awdur sydd wedi ysbrydoli unrhyw feysydd ymarfer yr enwebai sydd wedi'u cynnwys fel tystiolaeth yn y Cais.

6. Datganiad o Gefnogaeth

Mae Datganiad o Gefnogaeth y sefydliad yn agwedd hanfodol a hollbwysig o'r enwebiad. Mae'n cymeradwyo'r cais a wnaed gan yr enwebai ac yn fframio cyrhaeddiad, gwerth ac effaith ymarfer yr enwebai o safbwynt sefydliadol.

Ni ddylai'r Datganiad o Gefnogaeth gael ei ystyried fel ffynhonnell o dystiolaeth ategol (neu newydd); dylai agweddau craidd o gais yr enwebai, a'r dystiolaeth ar gyfer yr agweddau hyn, gael eu darparu o fewn Adran B o'r Cais. Mae Datganiad o Gefnogaeth y sefydliad yn ddogfen atodol y bwriadur iddi gymeradwyo'r hyn a nodir o fewn Adran B yn unig.

O 2023 ymlaen, cynghorwn fod y Datganiad o Gefnogaeth sefydliadol yn cael ei ysgrifennu gan gydweithiwr mewn swydd uwch yn y sefydliad enwebu (ar lefel Dirprwy Is-Ganghellor neu rywun cyfatebol) sy'n gyfarwydd ag ymarfer addysgu a dysgu'r enwebai. Dylai'r datganiad ddilysu'r effaith a dystir gan yr enwebai, darparu cyd-destun sefydliadol ar gyfer gwaith yr enwebai a darparu unrhyw wybodaeth ategol a allai gael ei mynegi'n fwy priodol gan uwch gydweithiwr sy'n gweithio mewn rôl uwch ac sy'n gyfarwydd ag ymarfer yr enwebai, er enghraifft, persbectif ar bwysigrwydd strategol gwaith yr enwebai a/neu'r newid sy'n deillio o ganlyniad i'w weithredoedd.

Mae'r gofyniad yn parhau i Is-Ganghellor/Pennaeth/Llywydd (neu rywun cyfatebol) ddarparu'r cadarnhad terfynol ar gyfer Datganiad o Gymorth i gadarnhau cymeradwyaeth sefydliadol ffurfiol ar gyfer yr enwebiad.

Dylai'r Datganiad o Gefnogaeth (Atodiad 3) gael ei gwblhau trwy ddefnyddio'r ffurflen y gellir ei lawrlwytho sydd ar gael ar Amgylchedd Dysgu Rhithwir AU Ymlaen. Argymhellir bod Cais yr enwebai yn cael ei ddarllen cyn bod uwch gydweithiwr yn llunio Datganiad o Gefnogaeth y sefydliad oherwydd mae'n ddefnyddiol iawn pan fydd y datganiad hwn yn cyfateb yn dda â'r Cais. Yn arbennig, dylai'r datganiad:

- + gymeradwyo dilysrwydd Cais yr enwebai ar gyfer effaith ragorol;
- + darparu'r cyd-destun sefydliadol lle gwelwyd effaith ragorol yr enwebai ac amlinellu unrhyw gynlluniau yn y dyfodol i ledaenu ei ymarfer ymhellach;
- + darparu cadarnhad o gefnogaeth sefydliadol ar gyfer yr enwebai, os yw'n llwyddiannus, o ran ymgymryd ag unrhyw gyfrifoldebau sy'n gysylltiedig ag ennill Cymrodoriaeth Addysgu Cenedlaethol;
- + darparu unrhyw wybodaeth ategol ychwanegol a allai gael ei mynegi'n fwyaf priodol gan gydweithiwr sy'n gweithio mewn rôl uwch (e.e ar lefel Dirprwy Is-Ganghellor neu rywun cyfatebol);
- + cael ei gymeradwyo gan yr Is-Ganghellor/Pennaeth/Llywydd (neu rywun cyfatebol) i ffurfioli'r enwebiad a darparu enw, teitl swydd a llofnod yr Is-Ganghellor/Pennaeth/Llywydd (neu rywun cyfatebol).

7. Y broses adolygu a dewis

Caiff pob enwebiad ei ystyried gan adolygwyr cyfoedion annibynnol ac allanol yn seiliedig ar yr wybodaeth y mae'r enwebeion yn eu cyflwyno yn erbyn y tri maen prawf yn Adran B o'r Cais. Mae'r Datganiad o Gefnogaeth sefydliadol yn dilysu'r hyn a ddywedir gan yr enwebai o safbwynt sefydliadol. Nid yw'r Datganiad Cyd-destun ar ddechrau'r Cais (Adran A) yn cael ei adolygu yn erbyn y meini prawf; ei bwrpas yw gosod y cyd-destun ar gyfer ymarfer yr enwebai er mwyn fframio'r dystiolaeth a ddarperir o fewn y tair rhan ganlynol o Adran B y Cais yn erbyn y meini prawf (gweler Adran 4 uchod).

Daw adolygwyr cyfoedion AU Ymlaen ar gyfer CCAC o blith gweithwyr proffesiynol addysgu a dysgu ar draws y sector AU ac maent yn annibynnol ar AU Ymlaen. Mae'r adolygwyr i gyd yn brofiadol ym maes asesu yn seiliedig ar feini prawf, byddant wedi cwblhau'n llwyddiannus ymarfer cymedrol ac wedi cael hyfforddiant cyn gweithredu fel adolygwr yn y cynllun. Bydd adolygwyr yn cyflawni eu rôl mewn modd cyfrinachol ac ni chaiff eu hunaniaeth ei rannu ag enwebeion, sefydliadau enwebu neu gyda Phanel Cynghori Gwobr Rhagoriaeth mewn Addysgu y DU yn ystod y broses dewis a dyfarnu.

Bydd adolygwyr yn sgorio pob rhan o Adran B o Gais yr enwebai yn erbyn pob un o'r tri maen prawf yn ei dro, gan sicrhau bod pob maen prawf yn cael yr un pwysiad yn y broses asesu. Mae terfynau geiriau caeth yn cael eu gosod ar gyfer y Cais a gofynnir i adolygwyr beidio ag ystyried unrhyw ran o Adran B y Cais sy'n fwy nag uchafswm nifer y geiriau a ganiateir, sef 1500 o eiriau fesul maen prawf dyfarnu (1-3). Defnyddir y cyfarwyddyd sgorio (Atodiad 4) gan yr adolygwyr i roi sgôr.

Yn 2023, bydd AU Ymlaen yn dyrannu'r holl enwebeion i dri adolygwr, gan osgoi unrhyw wrthdaro buddiannau. Mae adolygwyr yn sgorio pob un o'r tri maen prawf 0-9. Defnyddir cyfres o algorithmau er mwyn gwahaniaethu sgorau a chreu gradd derfynol. Os yw sgorau un adolygwr wedi eu diffinio fel rhai sy'n anghyson â sgorau'r ddau adolygwr arall, defnyddir pedwerydd adolygwr a'r tair sgôr agosaf i gyfrifo'r radd.

Mae AU Ymlaen yn goruchwyllo'r gwaith o safoni'r asesiad, ac mae'n monitro ac yn prosesu'r holl ddata enwebeion er mwyn adrodd i Banel Cynghori Gwobr Rhagoriaeth mewn Addysgu y DU. Mae'r dull a ddefnyddir yn sicrhau nad yw unrhyw enwebai o dan anfantais

oherwydd anghysondebau wrth farcio a bod pob enwebai yn cael ei drin yn deg ac yn gyson. Mae Panel Cynghori Gwobr Rhagoriaeth mewn Addysgu y DU yn adolygu data cyfle cyfartal, y graddau a sylwadau'r adolygwyr ac yn gwneud argymhellion ar gyfer enillwyr gwobrau, sy'n cael eu cadarnhau wedi hynny gan Grŵp Prif Weithredwyr AU Ymlaen.

Mae AU Ymlaen wedi ymrwmo i hybu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Wrth brosesu enwebiadau, mae'n sicrhau nad yw unrhyw enwebai yn cael ei drin yn llai ffafriol nag eraill ar sail rhyw, hil, cenedligrwydd, tras ethnig neu genedlaethol, credoau crefyddol neu wleidyddol, anabledd, statws priodasol, cefndir cymdeithasol, amgylchiadau teuluol, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, euogfarnau wedi eu disbyddu, oedran, neu am unrhyw reswm anghyfreithlon arall.

8. Digwyddiadau cymorth y Gymdeithas Cymrodorion Addysgu Cenedlaethol

Yn ogystal â'r canllawiau a gyflwynir o fewn y ddogfen hon, mae aelodau o'r Gymdeithas Cymrodorion Addysgu Cenedlaethol yn cynnal cyfres o weithdai cymorth rhanbarthol ac ar-lein ar gyfer unigolion sy'n paratoi i gael eu henwebu. Mae cynrychiolwyr blaenorol wedi dweud bod y digwyddiadau hyn wedi rhoi cymorth amhrisiadwy gydag ysgrifennu eu Cais.

Mae digwyddiadau cymorth y Gymdeithas yn rhad ac am ddim i ddarpar enwebeion eu mynychu. Caiff dolenni archebu lle eu hanfon at Arweinwyr Gwobr Rhagoriaeth mewn Addysgu ac maent yn gyfrifol am hyrwyddo'r digwyddiadau ymysg cydweithwyr.

Dylai sefydliadau sydd am newid y manylion cysylltu ar gyfer eu Harweinydd Gwobr Rhagoriaeth mewn Addysgu ebostio'r tîm yn ntfs@advance-he.ac.uk.

9. Canlyniadau a chyhoeddusrwydd

Caiff pob enwebai wybod y canlyniad trwy'r ebost yr wythnos yn dechrau ddydd Llun 3 Gorffennaf 2023. Bydd Is-Ganghellor/Pennaeth/Llywydd (neu rywun cyfatebol) pob sefydliad enwebu hefyd yn cael gwybod y canlyniad ar yr adeg honno. Bydd cyhoeddi enwau enillwyr CCAC 2023 wedi ei wahardd tan ddydd Iau 3 Awst 2023. Tra eu bod dan waharddiad, caniateir i enwebeion llwyddiannus a'u Arweinwyr Gwobr Rhagoriaeth mewn Addysgu ddatgelu newyddion am eu llwyddiant i aelodau o dîm marchnata a chyfathrebu eu Sefydliad Addysg Uwch at ddibenion cynllunio; yna mae'n rhaid i'r cydweithwyr hyn hefyd gadw at amodau'r gwaharddiad. Cyfeiriwch bob ymholiad ynglŷn â chynlluniau ar gyfer y diwrnod cyhoeddi at communications@advance-he.ac.uk.

Un o amodau cystadleuaeth CCAC yw nad yw enillwyr gwobrau, a'u sefydliadau enwebu, yn rhannu newyddion am eu llwyddiant cyn y dyddiad hwnnw, er mwyn sicrhau'r cyhoeddusrwydd mwyaf posibl. Gallai gweithredu'n groes i'r gofyniad hwn arwain at dynnu'r wobr yn ôl. Caiff enwau enillwyr gwobrau CCAC 2023 eu cyhoeddi'n swyddogol ar ddydd Iau 3 Awst 2023 ar wefan AU Ymlaen ac mewn datganiad i'r wasg. Defnyddir yr wybodaeth

sydd yn y Ffurflen Proffil Enwebeion a'r ffotograffau a gyflwynir gyda'r enwebiad mewn deunyddiau cyhoeddusrwydd.

Mae croeso i sefydliadau gyhoeddi a dathlu eu henillwyr **o 08:00 (BST) ar ddydd Iau 3 Awst.**

Mae tair delwedd tirlun eglur iawn 1Mb a 300dpi (o leiaf) o'r enwebai yn rhan o'r enwebiad a dylid eu lanlwytho i'r Amgylchedd Dysgu Rhithwir i'w defnyddio ar wefan AU Ymlaen ac yn llyfryn y seremoni (ansawdd delwedd ar gael ar y rhan fwyaf o ffonau clyfar a chamêrâu). Dylai'r tri ffotograff fod yn wahanol. Wrth gyflwyno delweddau i AU Ymlaen, mae unigolion yn rhoi eu caniatâd i AU Ymlaen ddefnyddio'r delweddau hyn at ddibenion hyrwyddo neu gyhoeddusrwydd. Mae enwebeion hefyd yn cadarnhau mai nhw yw perchennog unrhyw hawliau eiddo deallusol neu fod trwyddedau priodol ganddynt i rannau'r delweddau hyn ag AU Ymlaen ac i AU Ymlaen ddefnyddio'r delweddau a ddarperir at y diben hwn.

Mae CCAC yn gystadleuaeth ac felly mae penderfyniad y Panel yn derfynol; ni ellir gwneud unrhyw apeliadau yn erbyn ei benderfyniad. Dylai proses gwyno AU Ymlaen gael ei dilyn i roi sylw i unrhyw bryderon yn ymwneud â thriniaeth deg wrth weinyddu'r enwebiadau. Yn y lle cyntaf, os yw unrhyw gwestiynau neu bryderon yn codi, e-bostiwch ntfs@advance-he.ac.uk.

Yn dilyn cyhoeddi canlyniad CCAC 2023, bydd AU Ymlaen yn rhoi adborth ysgrifenedig unigol i'r holl enwebeion erbyn diwedd Awst 2023. Mae'r amserlen yn ofynnol oherwydd y nifer fawr o enwebiadau CAC a dderbynnir, a'r gwaith sylweddol y mae angen ei wneud i wirio a choladu'r adborth ysgrifenedig gan bob un o'r tri adolygwr ar gyfer tri maen prawf CAC. Dylai'r adborth ansoddol hwn gan yr adolygwyr gefnogi cynlluniau ar gyfer datblygiad yn y dyfodol. Nid yw sgorau adolygwyr a graddau enwebeion yn cael eu rhyddhau. Caiff adborth adolygwyr yr enwebeion ei rannu â'u Harweinydd Gwobr Rhagoriaeth mewn Addysgu, oni bai eu bod yn optio allan, er mwyn hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer llwyddiant sefydliadol yn rowndiau CCAC yn y dyfodol.

10. Y seremoni wobrwyo a'r digwyddiad briffio

Caiff gwobrau CCAC 2023 eu cyflwyno mewn cinio dathlu a chaiff enwebeion llwyddiannus, eu gwestai personol, a'u His-Ganghellor/Pennaeth/Llywydd (neu rywun cyfatebol) eu gwahodd i'r cinio. Caiff y seremoni mewn person ei chynnal yn hydref 2023 (dyddiad i'w gadarnhau).

Atodiad 1: Gofynion enwebu ar gyfer enwebeion a sefydliadau

✓	Tasg
	<p>Lansio dogfennau enwebu ar Amgylchedd Dysgu Rhithwir AU Ymlaen Dylai'r Arweinydd Gwobr Rhagoriaeth mewn Addysgu a'i ddirprwy ddefnyddio Enw Defnyddiwr a Chyfrinair Amgylchedd Dysgu Rhithwir AU Ymlaen. Cysylltwch â ntfs@advance-he.ac.uk os cewch broblem yn cael mynediad i'r Amgylchedd Dysgu Rhithwir, neu os yw'r Arweinydd Gwobr Rhagoriaeth mewn Addysgu yn newid.</p>
	<p>Rhestr wirio Arweinydd Gwobr Rhagoriaeth mewn Addysgu (i'w lawrlwytho o'r Amgylchedd Dysgu Rhithwir) <i>Er gwybodaeth yn unig. Dim yn ofynnol i'w gyflwyno mwyach.</i></p>
	<p>Cais (i'w lawrlwytho o'r Amgylchedd Dysgu Rhithwir. I'w gyflwyno fel ffeil PDF) Dylid ei ysgrifennu a'i lofnodi (bydd enw wedi'i deipio yn dderbyniol) gan yr enwebai yn unig, i'w gwblhau ar y ffurflen y gellir ei lawrlwytho a'i gyflwyno gan yr Arweinydd Gwobr Rhagoriaeth mewn Addysgu.</p>
	<p>Datganiad o Gefnogaeth (i'w lawrlwytho o'r Amgylchedd Dysgu Rhithwir. I'w gyflwyno fel ffeil PDF) Dylai gael ei ysgrifennu gan gydweithiwr mewn rôl uwch yn y sefydliad enwebu (ar lefel Dirprwy Is-Ganghellor neu rywun cyfatebol) sy'n gyfarwydd ag ymarfer addysgu a dysgu'r enwebai. Dylai'r Is-Ganghellor/Pennaeth/Llywydd y sefydliad (neu rywun cyfatebol) ei lofnodi (llofnod wedi'i sganio/electronig yn ofynnol). Dylai'r datganiad fod yn seiliedig ar Gais yr enwebai a'i gyflwyno gan yr Arweinydd Gwobr Rhagoriaeth mewn Addysgu.</p>
	<p>Ffurflen Proffil Enwebai (Arolygon Ar-lein) Dylai'r enwebai ei chwblhau gan ddefnyddio'r ffurflen ar-lein mewn Arolygon Ar-lein. Ar ddiwedd y ffurflen dylai'r enwebai nodi'r rhif derbynneb cwblhau a'i rhoi i'r Arweinydd Gwobr Rhagoriaeth mewn Addysgu ar gyfer ei gofnodion ei hun.</p>
	<p>Ffotograffau:</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ Tri ffotograff gwahanol eglur iawn o'r tîm 1Mb a 300dpi (o leiaf) (sylwer, gellir gwneud hyn ar y rhan fwyaf o ffonau clyfar a chamêrau nad ydynt yn rhai proffesiynol). ○ Dylid eu cyflwyno mewn fformat JPEG. ○ Dylai pob ffotograff fod mewn fformat tirlun. ○ Mae cyflwyno ffotograffau yn dangos bod Darparwr Addysg Uwch wedi ceisio cytundeb yr enwebai i AU Ymlaen ddefnyddio'r delweddau hyn.
	<p>Arolwg Monitro Cyfle Cyfartal Dylai Arolwg Monitro Cyfle Cyfartal ar-lein gael ei gwblhau gan yr enwebai. Caiff y data eu defnyddio'n ddiennw. Dylai'r Arweinydd Gwobr Rhagoriaeth mewn Addysgu gadarnhau ei fod wedi cael ei gwblhau.</p>
	<p>Cyflwyno Ar gyfer pob enwebai, dylai'r holl ddogfennaeth gael ei lanlwytho trwy Amgylchedd Dysgu Rhithwir AU Ymlaen erbyn 12:00 (GMT) ddydd Mercher 8 Mawrth 2023 gan yr Arweinydd Gwobr Rhagoriaeth mewn Addysgu.</p>

Atodiad 2: Ffurflen Cais Enwebai CCAC 2023

Enw:	
Sefydliad:	
Adran A: Datganiad cyd-destun (heb ei sgorio gan yr adolygwyr)	
I'w gwblhau yn y person cyntaf (h.y. defnyddiwch 'Rwyf')	
Nifer y geiriau Adran A (uchafswm 300 o eiriau)	<i>Rhowch nifer y geiriau ar gyfer Adran A yma</i>
Adran B: Cais yn erbyn Meini Prawf CCAC	
(tystiolaeth yn erbyn pob Maen Prawf 1-3 wedi ei sgorio ar wahân gan yr adolygwyr)	
Maen Prawf 1: Rhagoriaeth unigol	
Tystiolaeth o wella a thrawsffurfio canlyniadau myfyrwyr a/neu'r proffesiwn addysgu, gan ddangos effaith sy'n gymesur â chyd-destun yr unigolyn a'r cyfleoedd y mae hynny'n eu cynnig.	
Nifer y geiriau ar gyfer dystiolaeth yn erbyn Maen Prawf 1 (uchafswm 1500 o eiriau)	<i>Rhowch nifer y geiriau ar gyfer Maen Prawf 1 yma</i>
Maen Prawf 2: Codi proffil rhagoriaeth	
Tystiolaeth o gefnogi cydweithwyr a dylanwadu ar gymorth ar gyfer dysgu myfyrwyr a/neu'r proffesiwn addysgu, gan gynnwys ddangos effaith ac ymgysylltiad y tu hwnt i rôl academaidd neu broffesiynol arferol yr enwebai.	

Nifer y geiriau ar gyfer tystiolaeth yn erbyn Maen Prawf 2 (uchafswm 1500 o eiriau)	<i>Rhowch nifer y geiriau ar gyfer Maen Prawf 2 yma</i>
Maen Prawf 3: Datblygu rhagoriaeth Dangos ymrwymiad yr enwebai at ddatblygiad proffesiynol parhaus a'i effaith o ran addysgu a dysgu a/neu gymorth dysgu.	
Nifer y geiriau ar gyfer tystiolaeth yn erbyn Maen Prawf 3 (uchafswm 1500 o eiriau)	<i>Rhowch nifer y geiriau ar gyfer Maen Prawf 3 yma</i>
Adran C: Rhestr Cyfeiriadau (heb ei sgorio gan yr adolygwyr)	
Llofnod yr enwebai*: (Mae enw teipiedig yn dderbyniol)	
Dyddiad:	
Drwy gyflwyno'r ddogfen hon cadarnhaf fel a ganlyn: <ul style="list-style-type: none"> • Nid wyf ar hyn o bryd yn Arweinydd Gwobr Rhagoriaeth mewn Addysgu nac yn Ddirprwy Arweinydd Gwobr Rhagoriaeth mewn Addysgu neu'n Arweinydd Tîm ar gyfer enwebiad CCAC 2023 • Rwyf wedi darllen, deall ac yn cytuno â Datganiad Preifatrwydd AU Ymlaen • Fy ngwaith i yn unig yw'r Cais hwn. 	

Atodiad 3: Ffurflen Datganiad o Gefnogaeth

Dylai'r Datganiad o Gefnogaeth hwn gael ei **gwblhau** gan gydweithiwr mewn rôl uwch (Dirprwy Is-Ganghellor neu rywun cyfatebol) sy'n gyfarwydd ag ymarfer addysgu a dysgu'r enwebai, a'i **lofnodi** gan Is-Ganghellor/Pennaeth/Llywydd y sefydliad (neu rywun cyfatebol). Mae'n bosib bod Cais yr enwebai yn cael ei ddarllen cyn llunio'r datganiad hwn oherwydd mae'n ddefnyddiol iawn pan fydd y Datganiad o Gefnogaeth yn cyfateb yn dda â'r cais.

Enw'r person sy'n ysgrifennu'r Datganiad o Gefnogaeth Sefydliadol:	
Swydd:	
Manylion cysylltu (cyfeiriad gwaith, ebost a ffôn):	
Enw'r enwebai CAC:	
<p>Dylai'r Datganiad o Gefnogaeth hwn:</p> <ul style="list-style-type: none"> o gymeradwyo dilysrwydd Cais yr enwebai ar gyfer effaith ragorol; o darparu'r cyd-destun sefydliadol lle gwelwyd effaith ragorol yr enwebai ac amlinellu unrhyw gynlluniau yn y dyfodol i ledaenu ei ymarfer ymhellach; o darparu unrhyw wybodaeth ategol ychwanegol a allai gael ei mynegi'n fwyaf priodol gan gydweithiwr mewn rôl uwch (ar lefel Dirprwy Is-Ganghellor neu rywun cyfatebol) sy'n gyfarwydd ag ymarfer addysgu a dysgu'r enwebai. 	
<p><i>Rhowch Ddatganiad o Gefnogaeth yma:</i></p>	
Nifer y geiriau (uchafswm 1000 o eiriau)	<i>Rhowch nifer y geiriau yma</i>
<p>Cadarnhad sefydliadol gan yr Is-Ganghellor (neu rywun cyfatebol)</p>	
Enw, swydd ac ebost cysylltu	
Llofnod Electronig* (*llofnod wedi'i sganio a heb ei deipio)	
Dyddiad:	
<p>Drwy lofnodi'r ddogfen hon, fel Is-Ganghellor neu rywun cyfatebol, cadarnhaf fel a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rwyf yn cymeradwyo'r enwebiad hwn ac yn cadarnhau bod y broses enwebu fewnol a arweiniodd at ddewis yr enwebai CCAC a enwir yn deg, yn dryloyw, ac wedi dilyn ein polisi cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant sefydliadol (neu'r cyfwerth). • Rwyf wedi darllen, deall ac yn cytuno â Datganiad Preifatrwydd AU Ymlaen • Gall AU Ymlaen ddefnyddio'r ffurflen hon i gadarnhau y bydd y sefydliad yn cefnogi'n llawn enillydd y wobwr wrth gynnal unrhyw a'r holl weithgareddau sy'n gysylltiedig â rôl Cymrawd Addysgu Cenedlaethol os yw'n llwyddiannus. 	

Atodiad 4: Cyfarwyddyd sgorio CCAC 2023

Bydd adolygwyr yn defnyddio'r cyfarwyddyd sgorio isod i 'sgorio' pob un o dair rhan Adran B Cais yr enwebai yn erbyn pob un o dri maen prawf CCAC (h.y. uchafswm sgôr cyffredinol o 27 gan bob un o'r tri adolygwr).

	0 pwynt	1-2 pwynt	3-4 pwynt	5-6 pwynt	7-8 pwynt	9 pwynt
Maen Prawf 1: Rhagoriaeth unigol	Nid yw'r dystiolaeth yn berthnasol i ddangos bod canlyniadau myfyrwyr wedi gwella a/neu effaith gadarnhaol ar y proffesiwn addysgu	Tystiolaeth rannol i ddangos bod canlyniadau myfyrwyr wedi gwella a/neu effaith gadarnhaol ar y proffesiwn addysgu	Peth dystiolaeth i ddangos bod canlyniadau myfyrwyr wedi gwella a/neu effaith gadarnhaol ar y proffesiwn addysgu	Tystiolaeth dda, gyda pheth dystiolaeth dda iawn, i ddangos bod canlyniadau myfyrwyr wedi gwella a/neu effaith gadarnhaol ar y proffesiwn addysgu	Tystiolaeth dda iawn, gyda pheth dystiolaeth ragorol, i ddangos bod canlyniadau myfyrwyr wedi gwella a/neu effaith gadarnhaol ar y proffesiwn addysgu	Tystiolaeth eithriadol i ddangos bod yr enwebai wedi cael effaith drawsnewidiol ar ganlyniadau myfyrwyr a/neu effaith gadarnhaol ar y proffesiwn addysgu
Maen Prawf 2: Codi proffil rhagoriaeth	Nid yw'r dystiolaeth yn uniongyrchol gysylltiedig â dylanwad ar ddatblygiad ymarfer dysgu ac addysgu AU a/neu ymarferwyr, NEU ddylanwadu ar gefnogaeth ar gyfer dysgu myfyrwyr AU.	Tystiolaeth rannol o ddylanwad ar ddatblygiad ymarfer dysgu ac addysgu AU a/neu ymarferwyr, gan gynnwys y tu hwnt i rôl yr enwebai A/NEU Tystiolaeth rannol o ddylanwad ar gefnogaeth ar gyfer dysgu myfyrwyr AU.	Peth tystiolaeth dda o ddylanwad ar ddatblygiad ymarfer dysgu ac addysgu AU a/neu ymarferwyr, gan gynnwys y tu hwnt i rôl yr enwebai A/NEU Peth tystiolaeth dda o ddylanwad ar gefnogaeth ar gyfer dysgu myfyrwyr AU.	Tystiolaeth dda, gyda pheth tystiolaeth dda iawn, o ddylanwad ar ddatblygiad ymarfer dysgu ac addysgu AU a/neu ymarferwyr, gan gynnwys y tu hwnt i rôl yr enwebai A/NEU Tystiolaeth dda, gyda pheth tystiolaeth dda iawn o ddylanwad ar gefnogaeth ar gyfer dysgu myfyrwyr AU.	Tystiolaeth dda iawn, gyda pheth dystiolaeth ragorol, o ddylanwad ar ddatblygiad ymarfer dysgu ac addysgu AU a/neu ymarferwyr, gan gynnwys y tu hwnt i rôl yr enwebai A/NEU Da iawn, gyda pheth tystiolaeth ragorol o ddylanwad ar gefnogaeth ar gyfer dysgu myfyrwyr AU.	Tystiolaeth eithriadol o ddylanwad ar ddatblygiad ymarfer dysgu ac addysgu AU a/neu ymarferwyr, gan gynnwys y tu hwnt i rôl yr enwebai A/NEU Tystiolaeth eithriadol o ddylanwad ar gefnogaeth ar gyfer dysgu myfyrwyr AU.

	0 pwynt	1-2 pwynt	3-4 pwynt	5-6 pwynt	7-8 pwynt	9 pwynt
Maen Prawf 3: Datblygu rhagoriaeth	Nid yw'r dystiolaeth yn gysylltiedig ag ymrwymiad yr enwebai i ddatblygiad proffesiynol parhaus a'r effaith y mae hyn wedi'i chael ar ei arferion dysgu ac addysgu ei hun neu ganlyniadau ar gyfer myfyrwyr neu arferion cyfoedion	Tystiolaeth rannol o ymrwymiad yr enwebai i ddatblygiad proffesiynol parhaus a'r effaith y mae hyn wedi'i chael ar ei arferion dysgu ac addysgu ei hun a chanlyniadau i fyfyrwyr a/neu arferion cyfoedion	Peth dystiolaeth dda o ymrwymiad yr enwebai i ddatblygiad proffesiynol parhaus a'r effaith y mae hyn wedi'i chael ar ei arferion dysgu ac addysgu ei hun a chanlyniadau ar gyfer myfyrwyr a/neu arferion cyfoedion.	Tystiolaeth dda, gyda pheth dystiolaeth dda iawn, o ymrwymiad yr enwebai i ddatblygiad proffesiynol parhaus a'r effaith y mae hyn wedi'i chael ar ei arferion dysgu ac addysgu ei hun a chanlyniadau ar gyfer myfyrwyr a/neu arferion cyfoedion.	Tystiolaeth dda iawn, gyda pheth dystiolaeth ragorol, o ymrwymiad yr enwebai i ddatblygiad proffesiynol parhaus a'r effaith y mae hyn wedi'i chael ar ei arferion dysgu ac addysgu ei hun a chanlyniadau ar gyfer myfyrwyr a/neu arferion cyfoedion.	Tystiolaeth eithriadol o ymrwymiad yr enwebai i ddatblygiad proffesiynol parhaus a'r effaith y mae hyn wedi'i chael ar ei arferion dysgu ac addysgu ei hun a chanlyniadau i fyfyrwyr a/neu arferion cyfoedion

Atodiad 5: Datganiad preifatrwydd CCAC 2023

Atodlen 1: Diogelu Data

Mae'r atodlen hon yn disgrifio sut y mae AU Ymlaen yn casglu ac yn defnyddio gwybodaeth bersonol amdanoch chi pan fyddwch yn anfon eich enwebiad atom. At ddiben deddfwriaeth diogelu data, gan gynnwys Deddf Diogelu Data 2018, AU Ymlaen yw'r "rheolydd data". Mae hyn yn golygu ein bod yn gyfrifol am benderfynu sut rydym yn dal ac yn defnyddio gwybodaeth bersonol amdanoch. Mae'n ofynnol i ni o dan ddeddfwriaeth diogelu data i roi gwybod i chi pa wybodaeth sydd wedi ei chynnwys yn yr atodlen hon.

Mae AU Ymlaen yn gwmni cyfyngedig drwy warant sydd wedi ei gorffori yng Nghymru a Lloegr o dan y rhif cwmni 4931031 a'i gofrestru fel elusen yn Lloegr o dan y rhif elusen 1101607 ac yn yr Alban o dan y rhif elusen SC043946. Ein cyfeiriad swyddfa gofrestredig yw: Advance HE IC 1.25 Innovation Centre Innovation Way York Science Park York YO10 5DG. Gallwch gysylltu â ni hefyd trwy'r ebost yn data.protection@advance-he.ac.uk.

Sut y byddwn yn diogelu eich gwybodaeth bersonol

Mae AU Ymlaen wedi ymrwmo i ddal yr wybodaeth bersonol a rowch i ni yn ddiogel.

Os yw gwybodaeth bersonol yn cael ei dal yn electronig, caiff ei dal ar system gyfrifiadurol a berchenogir ac a reolir gan AU Ymlaen neu drydydd parti a benodir gan AU Ymlaen.

Er mwyn gallu gweinyddu'r cynllun yn effeithiol, mae AU Ymlaen yn storio'r manylion a roddir ar y ffurflen hon, a'r dogfennau enwebu, ar bapur ac mewn fformat electronig. Caiff copïau papur eu cadw'n lleol gan AU Ymlaen yn ei swyddfeydd neu'n ddiogel gan ein staff, contractwyr neu mewn cyfleusterau storio oddi ar y safle. Weithiau byddwn yn gwneud copïau electronig o ddogfennau papur neu'n teipio gwybodaeth o'r copïau hyn. Yna caiff y dogfennau neu'r wybodaeth eu storio ar ein system gyfrifiadurol.

Gweinyddir y broses enwebu trwy system Amgylchedd Dysgu Rhithwir AU Ymlaen. Caiff yr holl wybodaeth a rowch i ni ei throsglwyddo a'i storio ar ein gweinyddwyr diogel neu weinyddwyr trydydd parti arall y gallwn ei benodi o bryd i'w gilydd i letya'r Amgylchedd Dysgu Rhithwir a/neu storio gwybodaeth.

Byddwn yn cadw eich gwybodaeth bersonol cyhyd ag y bo angen yn unig i ddiwallu'r dibenion y cafodd ei chasglu ar eu cyfer (gweler "Ar gyfer beth ydym yn defnyddio eich gwybodaeth" isod)

Cymrodorion Addysgu Cenedlaethol Ilwyddiannus: Bydd AU Ymlaen yn storio ac yn prosesu eich gwybodaeth bersonol dros y cyfnod pan fyddwch yn Gymrawd Addysgu Cenedlaethol.

Enwebeion aflwyddiannus: Er mwyn penderfynu ar y cyfnod cadw priodol ar gyfer data personol, rydym yn ystyried swm, natur a sensitifrwydd y data personol, y risg posibl o niwed trwy'r defnydd diawdurdod neu ddatgelu eich data personol, y dibenion rydym yn prosesu eich data personol ar eu cyfer, ac a allwn gyflawni'r dibenion hynny trwy ddulliau eraill, a'r gofynion cyfreithiol cymwys. Bydd AU Ymlaen yn sicrhau bod ein cyflenwyr a thrydydd partiön o ddewis y byddwn yn rhannu eich gwybodaeth bersonol â nhw yn unol â'r atodlen hon yn dileu eich gwybodaeth bersonol pan na fydd rheswm dros ei chadw mwyach.

Ar gyfer beth ydym yn defnyddio'r wybodaeth sydd yn y ffurflen hon:

Mae'r sefyllfaoedd pan fyddwn yn prosesu eich gwybodaeth bersonol wedi eu rhestru isod:

- + Cyfathrebu â chi am eich enwebiad;
- + Dibenion gweinyddol gan gynnwys sefydlu, diwygio, cau neu adnewyddu cyfrifon defnyddwyr ar gyfer yr Amgylchedd Dysgu Rhithwir;
- + Gwerthuso a dadansoddi'r wybodaeth a ddarparwyd gennych yn eich ffurflenni;
- + Delio ag unrhyw ymholiadau neu gwynion mewn perthynas â'ch cais ar gyfer y Cynllun Cymrodoriaeth Addysgu Cenedlaethol;
- + Llunio adroddiadau ar gyfer defnydd mewnol gennym ni, ein staff a Phanel Cynghori Gwobr Rhagoriaeth mewn Addysgu y DU.

Ein sail gyfreithlon ar gyfer y gweithgareddau hyn yw'r rheidrwydd i gyflawni ein contract gyda chi (fel rydym ni'n ymrwymo i adolygu a phrosesu eich enwebiad).

Penodi darparwyr gwasanaeth trydydd parti i ddefnyddio eich data personol at ein dibenion (nid dibenion y trydydd parti) ar ein rhan o dan ein cyfarwyddyd megis gwasanaethau cymorth ar gyfer defnyddio'r Amgylchedd Dysgu Rhithwir, i adolygwyr cyfoedion allanol yn ogystal ag aelodau o'r panel fel rhan o'r broses asesu, i drydydd partïon sy'n cynorthwyo AU Ymlaen i lywio prosesau adolygu a gweithgareddau gwerthuso yn y dyfodol.

- + Cadw mewn cysylltiad â chi i anfon manylion atoch am wybodaeth gwasanaeth, ein cynhyrchion a gwasanaethau, arolygon, cylchlythyron, digwyddiadau, cyrsiau, seminarau a gweithdai.

Ein sail gyfreithlon ar gyfer y gweithgareddau hyn yw cyflawni ein buddion cyfreithlon i ymgysylltu â chymorth allanol i gyflenwi'r Cynllun Cymrodoriaeth Addysgu Cenedlaethol a chodi ein proffil o fewn y gymuned addysgu.

- + Lle yr hoffem ddefnyddio data at ddibenion eraill, gallwn wneud eich gwybodaeth yn ddienw er mwyn iddi beidio â chael ei chysylltu â chi. Yn yr achos hwnnw, bydd yn peidio â bod yn ddata personol a gallwn ddefnyddio'r data dienw ar gyfer unrhyw ddiben.

Rhannu eich gwybodaeth

Gallwn drosglwyddo eich gwybodaeth i'r trydydd partïon canlynol a/neu dimau neu adrannau AU Ymlaen mewnol ac ar gyfer y dibenion canlynol:

- + Eich cyflogwr at ddiben rhwydweithio a datblygiad proffesiynol;
- + Ein cyflenwyr sy'n darparu gwasanaethau ar ein rhan megis darparwyr TG sy'n berchen ar, yn rheoli neu'n darparu cymorth ar gyfer y cyfrifiaduron neu systemau a ddefnyddiwn a'n cyflenwyr sy'n darparu'r Amgylchedd Dysgu Rhithwir neu feddalwedd arall;
- + Ein staff neu unigolion a benodwn i adolygu eich enwebiad a gwybodaeth arall a rowch yn eich dogfennaeth enwebu. Sefydliadau partner y gallwn eu defnyddio i gyflenwi'r Cynllun Cymrodoriaeth Addysgu Cenedlaethol a'r seremoni wobrwyo;
- + Sefydliadau partner y gallwn eu defnyddio i gyflenwi'r Cynllun Cymrodoriaeth Addysgu Cenedlaethol a'r seremoni wobrwyo.

Weithiau gall fod rhwymedigaeth arnom i ddatgelu eich gwybodaeth bersonol o dan y gyfraith megis gan reoleiddiwr sydd â'r pŵer priodol, neu orchymyn llys. Yn ogystal, gall gwybodaeth a gedwir gan neu ar gyfer cyrff cyhoeddus fod yn destun ceisiadau rhyddid gwybodaeth.

Eich dyletswydd i roi gwybod i ni am newidiadau:

Mae'n bwysig bod yr wybodaeth bersonol sydd gennym amdanoch yn gywir ac yn gyfredol. Rhowch wybod i ni os yw'ch gwybodaeth bersonol yn newid yn ystod eich perthynas weithio â ni.

Eich hawliau mewn perthynas â gwybodaeth bersonol:

O dan rai amgylchiadau, o dan y gyfraith mae gennych yr hawl i wneud y canlynol:

- + Gwneud cais i gael mynediad i'ch gwybodaeth bersonol (a elwir yn gyffredin yn "gais mynediad pwnc data"). Mae hyn yn eich galluogi i gael copi o'r wybodaeth bersonol sydd gennym amdanoch a gwirio ein bod yn ei phrosesu'n gyfreithlon.
- + Cais i gywiro'r wybodaeth bersonol sydd gennym amdanoch. Mae hyn yn eich galluogi i gael unrhyw wybodaeth anghyflawn neu anghywir sydd gennym amdanoch wedi ei chywiro.
- + Cais i ddileu eich gwybodaeth bersonol. Mae hyn yn eich galluogi i ofyn i ni ddileu neu symud ymaith wybodaeth bersonol pan nad oes unrhyw reswm da dros barhau i'w phrosesu. Mae gennych yr hawl hefyd i ofyn i ni ddileu neu symud ymaith eich gwybodaeth bersonol pan fyddwch wedi arfer eich hawl i wrthwynebu prosesu (gweler isod).
- + Gwrthwynebu prosesu eich gwybodaeth bersonol os ydym yn dibynnu ar fudd cyfreithlon (neu fudd trydydd parti) ac mae rhywbeth am eich sefyllfa arbennig chi sy'n golygu eich bod am wrthwynebu prosesu ar y sail hon.
- + Cais i gyfyngu prosesu eich gwybodaeth bersonol. Mae hyn yn eich galluogi i ofyn i ni ohirio prosesu gwybodaeth bersonol amdanoch, er enghraifft, os ydych am i ni sefydlu ei chywirdeb neu'r rheswm dros ei phrosesu.
- + Cais i drosglwyddo eich gwybodaeth bersonol i barti arall.

Os ydych am adolygu, dilysu, cywiro neu wneud cais i ddileu eich gwybodaeth bersonol, gwrthwynebu prosesu eich data personol, neu wneud cais i ni drosglwyddo copi o'ch gwybodaeth bersonol i barti arall, cysylltwch â'r Tîm Gwobr Rhagoriaeth mewn Addysgu trwy lythyr.

Dim ffi yn ofynnol fel arfer:

Ni fydd rhaid i chi dalu ffi i gael mynediad i'ch gwybodaeth bersonol (neu arfer unrhyw un o'r hawliau eraill). Fodd bynnag, gallwn godi ffi resymol os yw'ch cais i gael mynediad yn amlwg yn ddi-sail neu'n eithafol. Fel arall, gallwn wrthod cydymffurfio â'r cais mewn amgylchiadau o'r fath.

Beth allai fod ei angen arnom gennych chi

Efallai y bydd angen i ni wneud cais am wybodaeth benodol gennych chi i'n helpu i gadarnhau eich hunaniaeth a sicrhau eich hawl i gael mynediad i'r wybodaeth (neu arfer unrhyw un o'ch hawliau eraill). Mae hwn yn fesur diogelwch priodol arall i sicrhau nad yw'r wybodaeth bersonol yn cael ei datgelu i unrhyw un sydd heb unrhyw hawl i'w chael.

Mae hawl gennych gwyno i [Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth](#) os oes unrhyw bryderon gennych mewn perthynas â'r modd y mae AU Ymlaen yn trin eich gwybodaeth bersonol.

Cysylltu â ni

+44 (0) 3300 416201

ntfs@advance-he.ac.uk

www.advance-he.ac.uk

 **in f** @AdvanceHE

© 2022 AU Ymlaen. Cedwir pob hawl.

Mae'r safbwyntiau a fynegir yn y cyhoeddiad hwn yn safbwyntiau'r awdur ac nid o reidrwydd safbwyntiau AU Ymlaen. Ni ellir atgynhyrchu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn na'i throsglwyddo mewn unrhyw ffurf neu drwy unrhyw gyfrwng, electronig neu fecanyddol, gan gynnwys llungopïo, recordio, neu unrhyw system storio ac adfer heb ganiatâd ysgrifenedig y perchennog hawlfraint. Fel rheol rhoddir caniatâd o'r fath ar gyfer dibenion addysgol, anfasnachol ar yr amod y rhoddir cydnabyddiaeth.

I wneud copïau o'r adroddiad hwn mewn print bras neu mewn fformat gwahanol, cysylltwch â'r Tîm Marchnata a Chyfathrebu yn AU Ymlaen:

+44 (0) 3300 416201 neu ntfs@advance-he.ac.uk

Mae AU Ymlaen yn gwmni cyfyngedig drwy warant sydd wedi ei gorffori yng Nghymru a Lloegr o dan y rhif cwmni 04931031. Cofrestrwyd fel elusen yng Nghymru a Lloegr rhif elusen 1101607. Cofrestrwyd fel elusen yn yr Alban rhif elusen SC043946. Ni ddylid defnyddio geiriau a logo AU Ymlaen heb ein caniatâd. Rhif cofrestredig TAW GB 152 1219 50.